



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Hyrwyddo dilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 065/2012
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2012

Hyrwyddo dilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3

- Cynulleidfa** Penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog a gynhelir; awdurdodau lleol; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA); Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG).
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn nodi negeseuon allweddol am gefnogi dilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned Cymraeg mewn Addysg
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffôn: 01443 663695
Ffacs: 01443 663653
e-bost: cymraeg.addysg@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Gellir cael copïau ychwanegol o'r Uned Cymraeg mewn Addysg yn y cyfeiriad uchod. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)



Cynnwys

Cefndir	2
Negeseuon creiddiol ar gyfer hyrwyddo dilyniant ieithyddol	4
Y ffactorau allweddol	4
Creu arfer effeithiol	5
Hyrwyddo cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion	6
Rôl awdurdodau lleol	7
Rôl ysgolion cynradd	9
Rôl ysgolion uwchradd	12
Rôl cyrff llywodraethu	14
Trefnu hyfforddiant perthnasol	15
Codi ymwybyddiaeth athrawon	16
Defnyddio'r DVD <i>Symud Ymlaen</i>	18
Codi ymwybyddiaeth dysgwyr	19
Codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr	20
Atodiad: Gwerth addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog	24

Cefndir

Mae gwella dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth genedlaethol. Nododd *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010, mai 'addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog.' Mae'r ddogfen hefyd yn datgan bod ' . . . angen i ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr eraill gynllunio'n strategol i hwyluso dilyniant ieithyddol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n rhugl mewn amrywiaeth eang o sgiliau iaith yn y Gymraeg.'

Er bod mwy a mwy o ddysgwyr yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hysgolion cynradd, mae diffyg dilyniant ieithyddol ar hyd y cyfnodau addysg o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen wedi bod yn destun pryder yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd ac mae cryn drafod wedi bod ar y dulliau gorau i geisio ymateb i'r sefyllfa.

Ym 2007, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru brosiect, drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i wella dilyniant ieithyddol rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd mewn saith o ardaloedd penodol – Dyffryn Aman, Dyffryn Taf, Tregaron, Aberteifi, Amlwch, Dyffryn Conwy ac Ystalyfera.

Prif ffocws y prosiect oedd ceisio newid arferion a pholisiau ysgolion ac awdurdodau lleol o safbwynt gwella dilyniant ieithyddol. I'r perwyl hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd cyson gyda phenaethiaid, athrawon pontio (cynradd ac uwchradd), swyddogion addysg sirol, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr er mwyn ceisio dylanwadu ar drefniadaeth y ddarpariaeth addysg. Yn sgîl gweithredu'r prosiect, gwelwyd y canlyniadau canlynol.

- Roedd cynnydd o ran dilyniant cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Aberteifi (28 y cant), Dyffryn Aman (20 y cant) a Thregaron (10 y cant). Ar gyfartaledd ar draws pob ardal, roedd 10 y cant yn fwy o ddysgwyr wedi dilyn ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg nag ar gychwyn y prosiect.
- Roedd gwelliant ym mhob ardal yn y dilyniant o safbwynt astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.
- Roedd newid mewn agweddau ymhlith penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a swyddogion addysg a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mabwysiadu systemau sy'n hybu a gwella dilyniant ieithyddol. Arweiniodd hyn at newid polisi a gweithdrefnau pwysig yn y maes mewn nifer o ardaloedd.

Yn y ddogfen hon, cynigir canllaw i awdurdodau lleol ac i ysgolion unigol ar gyfer cynnal prosiect o'r fath. Ceir yma amlinelliad o'r prif faterion i'w hystyried er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol ynghyd ag enghreifftiau perthnasol o'r ysgolion hynny er mwyn darlunio'r arfer gorau a welwyd. Mae dilyniant ieithyddol yn cael ei ddiffinio yng nghyd-destun y gwaith hwn fel dysgwyr yn parhau i astudio a) Cymraeg fel iaith gyntaf a b) y mwyafrif o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o un cyfnod allweddol i'r nesaf.

Negeseuon creiddiol ar gyfer hyrwyddo dilyniant ieithyddol

Er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, bydd angen tynnu sylw at y negeseuon pwysig hyn.

- Mae dilyniant ieithyddol yn gwneud y newid o'r cynradd i'r uwchradd yn llawer haws i'r dysgwyr.
- Mae ymchwil yn dangos bod y sgiliau iaith gwerthfawr a ddysgwyd yn yr ysgol gynradd yn cael eu colli'n gyflym os yw cyfrwng yr addysg yn newid – mae hyn yn arbennig o wir am blant o deuluoedd di-Gymraeg.
- Mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu orau os maen nhw'n cael eu defnyddio bob dydd, ac mae addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn rhoi cyfle beunyddiol i blentyn ddatblygu ei sgiliau iaith gan ddod yn fwy rhugl a hyderus.

Y ffactorau allweddol

Y man cychwyn gyda gwella dilyniant ieithyddol yw cydnabod bod pob sir a dalgylch ysgol yn wahanol. Oherwydd hynny, mae nifer o nodweddion yn gallu cyfrannu tuag at yr amrywiaeth a geir o ardal i ardal, e.e. y cyd-destun ieithyddol, patrymau demograffig, arweiniad awdurdodau lleol, cefnogaeth penaethiaid ac athrawon pontio, agweddau rhieni/gofalwyr a dysgwyr, safbwyntiau llywodraethwyr, cyflwr adeiladau ac 'enw da' ysgolion.

Er bod pob ardal a dalgylch yn unigryw, mae nifer o ffactorau yn gyffredin i ddilyniant ieithyddol llwyddiannus. Yn eu plith mae:

- ymrwymiad gan benaethiaid ac athrawon pontio i egwyddor dilyniant – o safbwynt y Gymraeg fel pwnc ac astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- ymwybyddiaeth ymhlith penaethiaid ac athrawon pontio o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd fel sgil
- dealltwriaeth rhwng y sector cynradd ac uwchradd bod angen cynllun strategol i hwyluso dilyniant sy'n cynnwys polisi ffrydio clir a data ar lefelau cyrhaeddiad, iaith y cartref, dewisiadau rhieni/gofalwyr, ac ati
- arweiniad a chefnogaeth gan awdurdod lleol i sicrhau bod dilyniant ieithyddol cadarn yn digwydd ar draws pob cyfnod allweddol
- cefnogaeth gan lywodraethwyr i addysg Gymraeg a'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ar hyd continwwm iaith

- ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr a dysgwyr o fanteision dwyieithrwydd ar gyfer byd gwaith a bywyd cymunedol yr ardal
- manylder yr wybodaeth a roddir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol/ysgolion uwchradd lleol am addysg Gymraeg a manteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol.

Mae modd defnyddio'r rhestr hon o ffactorau fel offeryn hunanasesu ar gyfer eich awdurdod lleol neu ar gyfer ysgolion unigol.

Creu arfer effeithiol

Er mwyn cefnogi dilyniant ieithyddol bydd angen cynnal gweithgarwch penodol ar sawl lefel. Cynigir yma rai o'r gweithgareddau mwyaf allweddol y dylid ystyried eu cefnogi yn eich ardal a'r grwpiau unigol dylid eu targedu.

Awdurdod lleol yn archwilio data ac yn pennu anghenion ar lefel ysgolion unigol



Trafod gydag ysgolion unigol a llunio cynllun gweithredu gan gynnwys hyfforddiant perthnasol



Ysgolion yn cytuno i weithredu gweithgarwch gan gynnwys cynnal hyfforddiant i athrawon a phennu gweithgareddau



Gweithgarwch i hyrwyddo dilyniant

Athro/athrawes gyda chyfrifoldeb
Sesiynau arfogi athrawon
Gweithdai ar gyfer dysgwyr
Cyflwyniadau i rieni/gofalwyr

Hyrwyddo cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

Er mwyn creu arfer da mewn dilyniant ieithyddol mae angen cydweithio a chyd-ddealltwriaeth dda rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae angen dod â'r haenau gwahanol at ei gilydd i gyrchu tuag at yr un nod. Byddai'n ddefnyddiol, felly, pe bai carfannau allweddol yn gallu rhoi sylw penodol i'r materion canlynol a nodir.

Rôl awdurdodau lleol

Er mwyn creu model effeithiol o ran dilyniant ieithyddol, mae angen i awdurdodau lleol roi ystyriaeth ddwys i weithredu'r canlynol:

- fabwysiadu polisi clir a diamwys i hyrwyddo a gwella dilyniant ieithyddol ar draws pob cyfnod addysg
- cynnwys datganiad yn y *Llawlyfr i rieni/gofalwyr* am bolisi dilyniant yr awdurdod o safbwynt y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng – dylid hefyd gyfeirio yn y ddogfen at y flaenoriaeth a roddir i ddilyniant yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- rhoi canllawiau i ysgolion cynradd ar y trothwy priodol o ran lefel cyrhaeddiad yn y Gymraeg ar gyfer parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg, e.e. Lefel 3 – ni ddylai hyn wrth gwrs hepgor unrhyw ddysgwyr nad yw wedi cyrraedd y lefel hwn rhag parhau i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd
- penodi Cydgysylltydd Iaith Dalgylchol (o blith penaethiaid neu athrawon pontio) i weithio gydag ysgolion cynradd i hyrwyddo dilyniant ym mhob dalgylch uwchradd
- rhoi cyfrifoldeb penodol am fonitro dilyniant i Swyddogion Gwella Ysgolion
- casglu data sirol ar lefelau cyrhaeddiad yn y Gymraeg (diwedd Cyfnod Allweddol 2) a phatrymau trosglwyddo, a'u cyhoeddi mewn adroddiad blynyddol ar ddilyniant
- rhoi cefnogaeth i ysgolion cynradd (lle bo'n briodol) i symud tuag at addysgu mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg
- cynnal cyfarfodydd i rieni/gofalwyr mewn ardaloedd sydd angen cyngor a chefnogaeth o ran dilyniant
- darparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i athrawon cynradd fel rhan o raglen hyfforddiant mewn swydd i'w galluogi i gyflwyno manteision dwyieithrwydd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn modd hyderus a gwybodus
- annog athrawon i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r cwricwlwm. Byddai modd defnyddio'r DVD *Symud Ymlaen* a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n sôn am fanteision addysg Gymraeg fel adnodd pwrpasol. Mae'r DVD yn cadarnhau mai addysg Gymraeg neu ddwyieithog yw'r dewis gorau o safbwynt datblygu sgiliau, y byd gwaith a chyfleoedd cymdeithasol.

Arweiniad gan awdurdod lleol

Mae Cynllun Addysg Gymraeg (2010–2015) Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys ymrwymiad cadarn i wella dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg i'r llall. Disgwylir i bob ysgol uwchradd sicrhau parhad a dilyniant ieithyddol addas a theilwng i bob dysgwr. Mae'r Cynlluniau Trosglwyddo a geir ym mhob ardal wedi eu seilio ar yr egwyddor o barhad a dilyniant ieithyddol ac maen nhw'n cael eu gweithredu yn sgîl trafodaethau rhwng y sector cynradd ac uwchradd. Mae pob dysgwr sydd wedi ei asesu yn unol â meini prawf cwricwlwm cenedlaethol iaith gyntaf yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Disgwylir hefyd bod dilyniant ieithyddol yn digwydd ym mhrofiadau cwricwlaidd eraill y dysgwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Mae'r arweiniad clir hwn wedi galluogi penaethiaid uwchradd i weithredu'r polisi yn hyderus a brwdfrydig. O ganlyniad mae'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn ysgolion uwchradd Ceredigion wedi codi o 83 y cant yn 2010/11 i 93 y cant yn 2011/12.

Rôl ysgolion cynradd

Mae'r elfennau mwyaf llwyddiannus o ran model o arfer da ar lefel ysgol gynradd yn cynnwys y canlynol.

- Mae penaethiaid cynradd a'r ysgol uwchradd leol yn cymryd cyfrifoldeb am ffrydio dysgwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo i Flwyddyn 7 a chytuno ar feini prawf ar gyfer cyflawni hyn.
- Mae penaethiaid cynradd yn rhoi ffocws clir ac arweiniad ar fater dilyniant mewn trafodaethau dalgylchol a'u bod yn ymwybodol o bolisi Llywodraeth Cymru ar hyn.
- Mae ysgolion yn cyflwyno negeseuon cyson i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 ynglŷn â phwysigrwydd dilyniant a rhoi anogaeth iddyn nhw ddilyn llwybrau ieithyddol er mwyn datblygu a mireinio'u sgiliau iaith.
- Mae cynlluniau'n cael eu gweithredu i godi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr (yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 2) o bwysigrwydd dilyniant ieithyddol a gwerth sgiliau dwyieithog yn y Gymru gyfoes.
- Mae ysgolion yn dosbarthu taflenni gwybodaeth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr Cyfnod Allweddol 2 ar werth addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd.
- Mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn cael eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen.
- Mae ysgolion yn cyflwyno data i'r Cydgysylltydd Iaith Dalgylchol neu swyddogion yr awdurdod lleol ar faterion megis lefelau cyrhaeddiad yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cyfrwng yr asesiadau, cyrchfannau, carfannau iaith, iaith y cartref, ac ati.
- Mae cydweithio'n digwydd gyda mudiadau iaith lleol fel yr Urdd a'r Mentrau Iaith i ddarparu cyfleoedd i blant a'u rhieni/gofalwyr ddefnyddio neu ymarfer eu Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Cydgysylltydd Iaith Dalgylchol

Mae awdurdodau lleol Gwynedd a Môn ers nifer o flynyddoedd, drwy gwmni Cynnal, wedi penodi Cydgysylltwyr Iaith i gefnogi ysgolion yn nalgylch pob ysgol uwchradd i weithredu polisi iaith y ddwy sir. Mae'r Cydgysylltydd Iaith Dalgylchol fel arfer yn athro/athrawes iaith brofiadol sy'n cael ei rhyddhau am 10 niwrnod y flwyddyn er mwyn cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd.

Cyfrifoldebau

- Casglu gwybodaeth o fanc data sirol ynglŷn â sefyllfa ieithyddol yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd er mwyn trafod y carfanau ieithyddol*, sy'n cael eu hadnabod ym mholisi iaith yr awdurdod, gyda'r ysgolion.
- Ymweld â'r ysgolion cynradd i drafod materion o ran gweithredu'r polisi iaith gan drafod carfanau iaith y dysgwyr sy'n trosglwyddo i'r uwchradd, a rhannu arferion da.
- Ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd, gydag Ymgynghorydd y Gymraeg, i drafod materion yn ymwneud â dilyniant Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gan gynnwys tracio dysgwyr unigol yn ôl y carfanau iaith.
- Cynorthwyo yn y broses o grwpio dysgwyr ym Mlwyddyn 7, dan arweiniad Ymgynghorydd y Gymraeg, trwy lunio rhestr i'w throsglwyddo i'r ysgol uwchradd, yn nodi carfanau ieithyddol.
- Arwain trafodaethau am ddatblygu iaith a hybu arferion da mewn addysgu a dysgu gydag athrawon y dalgylch.
- Bod yn aelod o gyfarfod cyswllt cynradd–uwchradd y dalgylch.
- Arfarnu llwyddiant y polisi iaith yn y dalgylch, trwy drafodaeth ag Ymgynghorydd y Gymraeg a Chydgysylltydd Iaith yr ysgol uwchradd, a chynhyrchu adroddiad blynyddol.

* Mae pob dysgwr yn cael ei asesu yn erbyn nifer o feini prawf a'i osod mewn carfan iaith yn unol â'r categorïau canlynol.

Carfan A – yn hyfedr ddwyieithog

Carfan B – yn gryfach eu sgiliau yn y Gymraeg

Carfan C1 – yn gryfach eu sgiliau yn y Saesneg, angen cryfhau eu sgiliau yn y Gymraeg

Carfan C2 – dysgwyr pur/hwyrddyfodiaid – heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg

Carfan CH – yn wan eu sgiliau yn y ddwy iaith

Bu ardaloedd eraill drwy gymorth y prosiect yn derbyn arian i gyflogi Swyddog 'Symud Ymlaen'. Dyma'r math o swyddogaeth a gyflawnwyd.

Rôl Swyddog 'Symud Ymlaen'

- Llunio adroddiad sy'n cynnwys data am lefelau cyrhaeddiad dysgwyr yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a data am eu dewis ffrwd ym Mlwyddyn 7.
- Ymweld â phob ysgol gynradd sy'n rhan o'r dalgylch i drafod materion yn ymwneud â dilyniant ieithyddol gyda phennaeth yr ysgol ac athro/athrawes Blwyddyn 6.
- Cynorthwyo yn y broses o ffrydio dysgwyr ym Mlwyddyn 7 gyda chydweithrediad athrawon cynradd, athro/athrawes bontio uwchradd, swyddog o'r awdurdod lleol.
- Mynychu cyfarfod cyswllt rhwng athrawon yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd ac athrawon pontio uwchradd y dalgylch.
- Sefydlu gweithdrefnau er mwyn tracio a monitro dilyniant ieithyddol y dysgwyr a fydd yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 drwy gydol Cyfnod Allweddol 3.

Rôl ysgolion uwchradd

Dylai ysgolion uwchradd ystyried:

- cymryd cyfrifoldeb, ar y cyd â phenaethiaid ac athrawon pontio cynradd, am ffrydio dysgwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo i Flwyddyn 7 – dylai'r sector cynradd ac uwchradd gytuno ar feini prawf ar gyfer cyflawni hyn ac esbonio'r penderfyniadau i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr
- sicrhau bod ffocws clir yn cael ei roi ar hybu dilyniant ieithyddol mewn gweithgareddau pontio rhwng y sector cynradd ac uwchradd
- llunio polisi iaith ar gyfer yr ysgol sy'n cynnwys ymrwymiad i wella dilyniant a gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd
- cynnwys adran benodol ym mhrosbectws yr ysgol am ddilyniant ieithyddol a'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer ffrydio dysgwyr ym Mlwyddyn 7
- penodi athro/athrawes gefnogi (Pencampwr Iaith) i fod yn bwynt cyswllt â:
 - dysgwyr, o safbwynt rhoi cymorth ieithyddol iddyn nhw gyda gwahanol agweddau o'r cwricwlwm
 - athrawon, o safbwynt datblygu eu sgiliau a'u hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Rôl Pencampwr Iaith

- Bod yn bwynt cyswllt i ddysgwyr Blwyddyn 7 sydd am gael cefnogaeth ychwanegol gydag elfennau ieithyddol o'r cwricwlwm yn Gymraeg.
- Bod ar gael i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr.
- Cynorthwyo athrawon sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i ddefnyddio technegau priodol er mwyn cefnogi dysgwyr sydd angen hwb ieithyddol ychwanegol.
- Cydweithio â'r athro/athrawes bontio uwchradd wrth gynnal sesiynau blasu ar gyfer dysgwyr o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd.
- Mynychu nosweithiau i rieni/gofalwyr gyda'r athro/athrawes bontio.

- sicrhau bod sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn cael eu cyflwyno i ddysgwyr fel rhan o'r cwricwlwm ym mhob cyfnod allweddol, gan ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen
- cyflwyno data i'r Cydgysylltydd Iaith Dalgylchol neu swyddogion yr awdurdod lleol ar faterion megis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, patrymau trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, patrymau dilyniant iaith gyntaf/ail iaith, asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3.

Arfer da o safbwynt ffrydio dysgwyr

Yn ddiweddar mae Ysgol Dyffryn Aman wedi newid y polisi ar ffrydio dysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd y dalgylch. Mewn cydweithrediad llawn â phenaethiaid ac athrawon pontio'r sector cynradd mae dysgwyr bellach yn cael eu gosod mewn dosbarthiadau sydd yn cynnig y dilyniant ieithyddol gorau ar gyfer datblygu eu sgiliau dwyieithog. Mae hyn mewn amser byr wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cael 60 y cant neu 80 y cant o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. At ei gilydd, mae'r newid hwn wedi cael ei groesawu gan rieni/gofalwyr sydd yn ei weld fel estyniad naturiol o gyfrwng addysg yr ysgol gynradd. Mae'r dysgwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newid polisi ac mae'r staff hefyd wedi croesawu'r newidiadau. Mae'r ffaith bod Ysgol Dyffryn Aman wedi dechrau cynnig mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd wedi dylanwadu ar gyfrwng addysgu'r pwnc mewn rhai ysgolion cynradd y dalgylch.

Rôl cyrff llywodraethu

Mae'r rôl bwysig sydd gan gyrff llywodraethu ysgolion yn cynnwys:

- cymeradwyo polisi ar gyfer sicrhau bod dilyniant ieithyddol yn digwydd yn effeithiol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3
- cymeradwyo polisi i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn y gymuned leol
- sicrhau bod y polisi ar ddilyniant a hybu'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw ym mhrosbectws yr ysgol
- mabwysiadu polisi recriwtio bwriadus er mwyn cynyddu'r capasiti'r ysgol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu hyfforddiant mewn swydd perthnasol i ddatblygu hyder a sgiliau iaith athrawon
- cynllunio ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys mathemateg, gwyddoniaeth a phynciau eraill os yn berthnasol)
- darparu cyngor i ddysgwyr a rhieni/goflawyr am y llwybrau ieithyddol posibl sydd ar gael yn yr ysgol uwchradd ac amlinellu manteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg
- derbyn data ar batrymau dilyniant, y ddarpariaeth bresennol, niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, dilyniant Cymraeg iaith gyntaf/ail iaith, a'i ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwella.

Cefnogaeth llywodraethwyr

Dwy flynedd yn ôl, cymeradwyodd bwrdd llywodraethol Ysgol Dyffryn Conwy argymhelliad i newid patrwm ffrydio'r ysgol. Lle roedd ffrydiau Cymraeg, dwyieithog a Saesneg yn bodoli ynghynt, erbyn hyn mae pob ffrwd naill ai'n ffrwd Gymraeg neu'n ffrwd ddwyieithog. Golyga hyn bod pob dysgwr yn cael o leiaf 20 y cant o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwyafrif helaeth y dysgwyr (tua 70 y cant) yn dilyn o leiaf 70 y cant o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffaith bod penaethiaid cynradd erbyn hyn yn cael mwy o fewnbwn i'r broses ffrydio hefyd wedi cryfhau dilyniant ieithyddol yn yr ysgol.

Trefnu hyfforddiant perthnasol

Mae'n bwysig bod hyfforddiant perthnasol i gyfleu'r negeseuon allweddol i rieni/gofalwyr a dysgwyr. Er mwyn gwneud hyn, nodir yn yr adrannau canlynol rai o'r prif bwyntiau dylid eu cyflwyno mewn sesiynau perthnasol ar gyfer athrawon er mwyn iddyn nhw allu cynnig gwybodaeth berthnasol i ddysgwyr a rhieni/goflawyr.

Codi ymwybyddiaeth athrawon

Mae codi ymwybyddiaeth athrawon am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd yn allweddol i wella dilyniant ieithyddol. Gall athrawon deimlo'n ddihyder a di-rym wrth wynebu cwestiynau gan rieni/gofalwyr ynglŷn â gwerth parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg a'u hamheuron am allu eu plant i ymdopi ag addysg Gymraeg. Ceir rhestr o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yn yr atodiad.

Mae'n werth ystyried cynnal cyrsiau hyfforddiant penodol i benaethiaid ac athrawon pontio er mwyn mynd i'r afael â'r galw am wybodaeth, data a ffeithiau cadarn am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Dyma fraslun o gwrs yn seiliedig ar un tebyg a gynhaliwyd gan y prosiect.

Cwrs codi ymwybyddiaeth iaith

Bydd cwrs codi ymwybyddiaeth iaith yn fuddiol iawn i benaethiaid ac athrawon pontio yn y sector cynradd sy'n gorfod trafod dewisiadau gyda rhieni/gofalwyr o safbwynt cyrchfannau a chyfrwng addysg yn yr ysgol uwchradd.

Gallai cwrs diwrnod gynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad i fanteision dwyieithrwydd wedi ei seilio ar ymchwil rhyngwladol ac ymchwil a wnaed yn benodol yng Nghymru – rhoddir pwyslais arbennig ar y manteision gwybyddol, addysgiadol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
- Cyflwyniad i fanteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg – o ran datblygu sgiliau iaith ac ymelwa o ddau fyd o brofiadau.
- Rhannu syniadau am weithgareddau ymwybyddiaeth iaith i ddysgwyr Blynyddoedd 4, 5 a 6 sy'n pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ieithyddol.
- Rhoi cyngor i athrawon ar sut i ymateb i bryderon rhieni/gofalwyr am addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi canllawiau iddyn nhw ar sut i ddelio â'r heriau hyn mewn modd deallus a sensitif. Mae'r gofidiau'n cynnwys:
 - Saesneg yw iaith y cartref felly mae'r plentyn dan anfantais
 - helpu gyda gwaith cartref
 - effaith addysg Gymraeg ar safon Saesneg y plentyn
 - mae'r plentyn wedi gwneud digon o Gymraeg yn barod
 - mae'n well canolbwyntio ar ddysgu ieithoedd eraill.

- Rhoi cyfle i athrawon ymarfer y dadleuon o blaid dilyniant ieithyddol mewn sesiynau rhyngweithiol a chyflwyno data a ffeithiau perthnasol iddyn nhw er mwyn grymuso'u safbwyntiau.
- Rhannu gwybodaeth am yr adnoddau cefnogol sydd ar gael i helpu athrawon i hyrwyddo dilyniant ar lawr y dosbarth. Mae hyn yn cynnwys llyfrau, CDau, meddalwedd, gwefannau, DVDau a chyfryngau cymdeithasol.
- Dangos y DVD *Symud Ymlaen* a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n cyflwyno manteision parhau i ddysgu yn Gymraeg.
- Sesiwn cwestiwn ac ateb a thrafodaeth gyffredinol ar brif ganfyddiadau'r diwrnod.

Fel y nodir uchod, byddai'n werth dangos rhannau o'r DVD *Symud Ymlaen*.

DVD *Symud Ymlaen*

Mae'r DVD *Symud Ymlaen* yn dangos mai addysg Gymraeg neu ddwyieithog sy'n rhoi'r dewis gorau i ddysgwyr o ran datblygu sgiliau, cystadlu am swyddi a chyfrannu i fywyd cymdeithasol.

Ceir tystiolaeth o bwysigrwydd parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg gan yr Athro Colin Baker, sy'n arbenigwr byd-eang ar addysg ddwyieithog. Mae e'n dweud bod sgiliau iaith yn datblygu'n well wrth eu defnyddio bob dydd ac yn rhybuddio y gallai dysgwyr golli hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg a'i cholli'n gyfan gwbl pe baen nhw'n troi at addysg Saesneg yn yr ysgol uwchradd.

Mae'r DVD hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan bobl o fyd addysg a busnes sy'n pwysleisio manteision cael sgiliau dwyieithog yn y Gymru gyfoes.

Mae cyflogwr sy'n ymddangos ar y DVD yn nodi'n glir bod yr hyn sydd angen yw pobl ifanc sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, yn arbennig wrth i Gymru ddatblygu'n wlad ddwyieithog. Mae athrawon o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw bod dysgwyr yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol uwchradd.

Children who go through Welsh-medium education have a better chance in the jobs market, particularly where there is a customer interface.

Yr Athro Colin Baker

Defnyddio'r DVD *Symud Ymlaen*

Mae'r DVD *Symud Ymlaen* yn adnodd defnyddiol, felly, ar gyfer ei ddefnyddio mewn sesiynau penodol ar gyfer dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Rhennir y DVD i chwe rhan.

- **Symud Ymlaen:** sef esboniad o'r prif egwyddorion.
- **Datblygu sgiliau:** ceir yma athrawon, rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn sôn am bwysigrwydd sgiliau Cymraeg a cheir cyfraniad defnyddiol hefyd gan yr Athro Colin Baker.
- **Cymraeg Iaith Busnes:** y neges a bwysleisir yn y rhan hon yw bod mwy o ddewis swyddi ar gael yng Nghymru os ydych chi'n siarad dwy iaith. Ceir cyfraniad gan rai sy'n gweithio i Fanc NatWest ac i'r Gwasanaeth Tân ac Argyfwng yn ogystal â Chwmni Yswiriant Antur. Atgyfnerthir y neges hon gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr a cheir cyfraniad eto gan yr Athro Colin Baker.
- **Cyfleoedd cymdeithasol:** yn y rhan hon pwysleisir manteision siarad Cymraeg a Saesneg o ran mynediad i gyfleon cymdeithasol yn lleol.
- **Y dewis gorau:** atebion sydd yma i rai o bryderon rhieni/gofalwyr am waith cartref, heriau dilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd gwerth astudio Cymraeg yn hytrach na Chymraeg ail iaith.
- **Crynhoi:** ail bwysleisio'r prif negeseuon.

Codi ymwybyddiaeth dysgwyr

Mae gan ddysgwyr ddylanwad cynyddol ar ddewisiadau addysg. Mae'n fuddiol cynnal gweithdai i ddysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o werth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n well gwneud hyn drwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog sy'n tanlinellu manteision economaidd, diwylliannol a chymdeithasol bod yn ddwyieithog yn y Gymru gyfoes.

Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth

Dros gyfnod y prosiect, lluniwyd nifer o weithgareddau hwyliog i'w defnyddio gyda dysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o fanteision sgiliau dwyieithog, gan gynnwys manteision cymdeithasol, addysgol ac economaidd.

Un enghraifft yw cael dwy ddol sy'n edrych yn debyg o ran pryd a gwedd, a chyflwyno stori i'r plant am hanes y ddwy. Maen nhw'n efeilliaid sydd wedi cael eu magu'n siaradwyr Cymraeg. Cafodd y ddwy addysg Gymraeg yn yr ysgol gynradd. Aeth un ymlaen i gael addysg Gymraeg yn yr ysgol uwchradd ond dilynodd y llall ei ffrindiau a dewis addysg Saesneg. Aeth un i'r coleg yng Nghymru a'r llall i goleg yn Lloegr. Cadwodd un ei Chymraeg a cholodd y llall yr iaith ar ôl treulio blynyddoedd yn gweithio yn Llundain. Drwy gyd-ddigwyddiad, flynyddoedd wedyn fe geisiodd y ddwy am yr un swydd – swydd uchel yn talu cyflog da mewn ardal o Gymru sydd â nifer o bobl yn siarad Cymraeg.

Esbonnir wrth y plant bod gan un ohonyn nhw sgiliau dwyieithog, felly mae hi'n gallu siarad â phawb, naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg. Dim ond Saesneg sydd gan y llall. Trafodir pwysigrwydd rhoi dewis iaith i gwsmeriaid a hawliau siaradwyr Cymraeg. Gofynnir i'r dysgwyr ddewis pa un ddylai gael y swydd. Gwelwyd ym mhob achos yn ddiethriad bod y plant yn dewis yr un â sgiliau dwyieithog. Canlyniad yr ymarfer yw bod y dysgwyr eu hunain yn sylweddoli manteision cael sgiliau dwyieithog.

Mae dangos darnau o'r DVD *Symud Ymlaen* hefyd yn fuddiol yn y sesiynau i ddysgwyr cynradd, yn arbennig yr adrannau sy'n sôn am 'Symud Ymlaen', 'Datblygu sgiliau' a 'Cymraeg Iaith Busnes'.

Codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr

Mae codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr o fanteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg yn greiddiol i ddilyniant ieithyddol llwyddiannus. Mae'n werth, felly, cyfeirio at y rhestr o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a geir yn yr atodiad. Yn gyffredinol, bydd y cynnydd a welir ym mhob ardal o safbwynt dilyniant ieithyddol (fel pwnc a chyfrwng) i'w briodoli i gefnogaeth rhieni/gofalwyr. Ni fydd unrhyw newid mewn trefniadaeth na pholisi addysg heb yn gyntaf ddarbwylllo rhieni/gofalwyr o fanteision dwyieithrwydd. Mae modd cyflawni hyn drwy fuddsoddi amser i gwrdd â rhieni/gofalwyr ac i hyfforddi athrawon i drafod manteision dwyieithrwydd a gwerth addysg cyfrwng Cymraeg.

Nosweithiau rhieni/gofalwyr

Naill ai ar gyfer ysgol unigol neu glwstwr o ysgolion cynradd cyfagos. Fel arfer rhoddwyd gwahoddiad i rieni/gofalwyr Blynnyddoedd 4, 5 a 6 fynychu. Roedd trefn y noson yn dilyn patrwm tebyg, fel isod.

- Cyflwyniad byr i nod ac amcanion Prosiect Symud Ymlaen.
- Gosod y cyd-destun strategol – polisiau sirol a chenedlaethol.
- Disgrifiad byr o sefyllfa ieithyddol pob ardal.
- Amlinelliad o fanteision dwyieithrwydd.
- Trafod gofidiau rhieni/gofalwyr (ar sail profiad y prosiect).
- Dangos y DVD *Symud Ymlaen*.
- Sesiwn cwestiwn ac ateb.
- Dosbarthu pecynnau gwybodaeth.
- Sgwrs dros banded.

Rhoddwyd y ffocws pennaf yn y nosweithiau i rieni/gofalwyr ar gyflwyno manteision dwyieithrwydd, sef y manteision gwybyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Os ydy eich plentyn yn rhugl mewn dwy iaith bydd yn gallu cymysgu a chyfathrebu gyda llawer mwy o bobl ac yn gallu cael bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol. Dwy iaith – dwywaith y dewis!

DVD *Symud Ymlaen*

Tynnwyd sylw hefyd at yr holl fanteision addysgiadol gan nodi'r ffaith bod ymchwil yn dangos bod:

- defnyddio'r ddwy iaith yn datblygu'r gallu i drawsieithu, sef derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i gyflwyno mewn iaith arall, sydd yn hybu sgiliau a gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- pobl ddwyieithog yn fwy abl i ddysgu trydedd iaith a dangos mwy o oddefgarwch at ddiwylliannau eraill
- dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yw'r arfer yn Ewrop, felly nid yw'r sefyllfa yng Nghymru yn anghyffredin – mae tua 65 y cant o bobl Ewrop yn siarad o leiaf dwy iaith.

Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- methu helpu gyda gwaith cartref
- credu nad yw Cymraeg y plentyn yn ddigon da i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- y plentyn yn dod o deulu di-Gymraeg felly o dan anfantais
- effaith niweidiol addysg Gymraeg ar ddatblygiad sgiliau iaith yn y Saesneg
- y gred bod astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy anodd, yn arbennig pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth
- y dybiaeth fod astudio'r Gymraeg yn digwydd ar draul dysgu ieithoedd eraill megis Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg
- dim digon o lyfrau ac adnoddau addysg ar gael yn y Gymraeg
- mae'r derminoleg yn rhy anodd yn Gymraeg

- dim modd parhau gydag addysg Gymraeg yn y sector addysg bellach neu addysg uwch, felly byddai newid i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn achosi cymhlethdodau
- cael y canlyniadau gorau sy'n bwysig – mae A* mewn Cymraeg Ail Iaith yn well er enghraifft na C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf
- mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cau drysau a chyfyngu ar ddewisiadau mewn bywyd.

Ymateb i bryderon rhieni/gofalwyr

Gwaith cartref: Mae'r gwaith fel arfer yn estyniad o waith y dosbarth, felly ni ddylai gynnwys unrhyw beth anghyfarwydd. Er y dylid bod yn sensitif i awydd rhieni/gofalwyr i helpu, dylid bod yn realistig ynglŷn â'u gallu i gyfrannu wrth i'r pynciau fynd yn fwy anodd ac arbenigol. Dylid hefyd atgoffa rhieni/gofalwyr nad eu gwaith cartref nhw ydyw beth bynnag!

Nid yw Cymraeg fy mhlentyn yn ddigon da: Awgrymir y dylid ymddiried ym marn y pennaeth neu'r athro/athrawes dosbarth sydd yn aml mewn sefyllfa dda i asesu safon iaith plentyn na'r rhieni/gofalwyr, yn arbennig os ydy'r rhieni/gofalwyr yn ddi-Gymraeg.

Effaith ar ddatblygiad y plentyn yn Saesneg: Mae ystadegau'n dangos bod dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud cystal mewn profion ac arholiadau, gan gynnwys Saesneg fel pwnc. Mae addysg Gymraeg yn ffordd effeithiol o wella sgiliau dwyieithog plentyn.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy anodd: Nid oes unrhyw dystiolaeth i brofi hyn. I'r gwrthwyneb, mae dysgwyr mewn ysgolion dwyieithog yn gyson yn cael canlyniadau cystal â dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Dim digon o lyfrau ac adnoddau yn y Gymraeg: Mae mwy o adnoddau Cymraeg i gael heddiw nag erioed o'r blaen gan gynnwys meddalwedd, gêmâu cyfrifiadurol, llyfrau rhyngweithiol a DVDau.

Dim dilyniant i'r sectorau addysg bellach neu addysg uwch: Mae'r sefyllfa wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, mae modd dilyn llawer iawn o gyrsiau a modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Ôl-16. Mae sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddatblygiad pwysig o safbwynt ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae A* mewn Cymraeg Ail Iaith yn well na C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf:

Cam yn ôl yw troi o astudio Cymraeg Iaith Gyntaf at Gymraeg Ail Iaith. Fyddai rhieni/gofalwyr ddim yn caniatáu i hyn ddigwydd mewn unrhyw bwnn arall. Mae cyflogwyr bellach yn edrych am sgiliau dwyieithog cadarn – mae cael addysg Gymraeg yn ffordd effeithiol o wella sgiliau a hyder yn yr iaith. Mae mwy o swyddi yn gofyn am sgiliau dwyieithog heddiw nag erioed o'r blaen.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cau drysau: Mae bod yn ddwyieithog yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc brofi dau ddiwylliant gwahanol a dau fyd o brofiadau. Dwy iaith – dwywaith y dewis!

Mae dangos darnau o'r DVD *Symud Ymlaen* hefyd yn fuddiol yn y sesiynau i rieni/gofalwyr, yn arbennig yr adrannau sy'n sôn am 'Symud Ymlaen', 'Datblygu sgiliau' a 'Cymraeg Iaith Busnes'.

Atodiad: Gwerth addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

Negeseuon allweddol am addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

- Mae dysgwyr sy'n deall mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg ac yn tueddu bod yn well mewn profion IQ.
- Mae dysgwyr sy'n gweithredu mewn dwy iaith yn y cwricwlwm yn gallu cael canlyniadau da mewn profion ac arholiadau.
- Mae canlyniadau plant dwyieithog mewn profion ac arholiadau yn y Saesneg fel pwnc yn uwch ar gyfartaledd na phlant uniaith.
- Mae dysgwyr dwyieithog yn gallu cyfathrebu gydag aelodau'r teulu, cymdogion a ffrindiau naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg a chyfrannu'n llawn i fywyd cymunedol yr ardal lle maen nhw'n byw.
- Mae'r manteision economaidd o gael hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn amlwg wrth i fwy o swyddi nac erioed o'r blaen yng Nghymru ofyn am sgiliau dwyieithog.
- Mae pobl ddwyieithog yn fwy abl i ddysgu trydedd iaith a dangos mwy o oddefgarwch at ddiwylliannau eraill.
- Mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn arferol yn Ewrop, felly nid yw'r sefyllfa yng Nghymru yn un anghyffredin. Mae dros 65 y cant o bobl Ewrop yn gallu siarad o leiaf dwy iaith.
- Mae bod yn ddwyieithog yn cynnig cyfle i ddysgwyr brofi dau ddiwylliant gwahanol a dau fyd o brofiadau.
- Mae bod yn ddwyieithog yn helpu pobl i fod yn rhan o Gymru a chynyddu'r teimlad o berthyn.